Cyngor Sir CEREDIGION CEREDIGION County Council

# Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion
# Materion Ddraft
# Yr Amgylchedd – Cadwraeth Natur

**2008**

**Bryan Thomas, MCIEH, FRSH**

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, | Director of Environmental Services and Housing, |
| Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA | Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA |
| Ffôn 01545 570881 Ffacs: 01545 572117 | Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117 |

# 1. Materion a fydd yn cael sylw drwy'r CDLl (gan gynnwys awgrym o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau)

## Atal colli bioamrywiaeth a gwella bioamrywiaeth ar safleoedd gwarchodedig ac yn y wlad ehangach.

1.1.1 Yn y cyfarwyddyd blaenorol canolbwyntiwyd ar ddiogelu ardaloedd gwarchodedig a diogelu rhywogaethau a chynefinoedd yn y wlad ehangach. Fodd bynnag, mae'r cyfarwyddyd mwyaf diweddar yn cynnwys mwy na'r rheidrwydd i ddiogelu safleoedd cadwraeth natur statudol yn unig, mae bellach yn cynnwys rheidrwydd i wella'r safleoedd hynny.

1.1.2 Yn y wlad ehangach rhaid atal colli bioamrywiaeth ac fe gaiff cynefinoedd lled naturiol eu cynnal a'u gwella. Bydd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn nodi'r blaenoriaethau sydd ohoni o ran cadwraeth.

1.1.3 Yn y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Datblygu Gwledig mae rheidrwydd i ddatblygu economi gwledig cynaliadwy sydd wedi ei sylfaenu ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd. Ym mholisïau'r CDLl dylid sicrhau bod cynaliadwyedd yn hyn o beth yn cynnwys gwella bioamrywiaeth a gwarchod rhag colli bioamrywiaeth.

## Gwella Cysylltedd Ecolegol

1.1.4 Mae gwarchod rhag colli bioamrywiaeth, sicrhau cysylltiadau gwell rhwng Natura 2000 ac ardaloedd gwarchodedig eraill a sicrhau bod y wlad yn agored i rywogaethau a chynefinoedd yn wyneb y newid hinsawdd i gyd wedi eu nodi'n gyflawnhad dros gysylltedd.

1.1.5 Mae'r polisïau cenedlaethol yn benodol yn nodi sut y dylai blociau coetiroedd fod yn gydgysylltiedig, er y byddai polisi lleol yn cynnwys pob cynefin sydd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol neu gynefinoedd Adran 42 yng Ngheredigion. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi asesu cefn gwlad Cymru a nodi ardaloedd lle byddai gwell cysylltedd ecolegol fwyaf effeithiol, ac mae'r ardaloedd hynny'n cynnwys arfordir Ceredigion, Afon Teifi a Mynyddoedd Cambria (Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2006).

## Gwasanaethau Ecolegol

1.1.6 Mae polisïau cenedlaethol a lleol yn nodi sut y mae cynefinoedd o safon dda megis gorgorsydd a systemau afonydd yn darparu amrywiol wasanaethau buddiol megis sinciau carbon, rheoli llifogydd, adnoddau ddŵr, byffer rhag llygredd ac adnoddau naturiol megis bwyd a deunyddiau. Mae'r cyfarwyddyd yn ceisio diogelu gweithrediad yr amgylchedd naturiol. Yn arbennig felly mae'r gyfarwyddeb fframweithiau ddŵr yn mynnu y dylid cynnal systemau'r afonydd yn dda. Ymhlith polisïau'r pynciau eraill dylid cynnwys y gofynion cadwraeth natur a diogelu gwasanaethau anthropogenaidd buddiol.

## Hamdden

1.1.7 Dylai polisïau'r CDLl annog mynediad cyhoeddus ond dylent nodi ardaloedd lle na chaiff mynediad ei annog a hynny er mwyn cadw ardaloedd lle caiff byd natur lonydd.

## Gwarchodfeydd Natur Lleol, gwarchodfeydd natur preifat a Safleoedd Bywyd Gwyllt

1.1.8 Dylid gwarchod dwy Warchodfa Natur Leol Ceredigion ynghyd â'r gwarchodfeydd eraill preifat rhag effeithiau negyddol unrhyw ddatblygiadau.

1.1.9 Nid oes Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi eu creu yng Ngheredigion eto ond pan gaiff Safleoedd Bywyd Gwyllt eu pennu dylai polisïau'r CDLl eu hamlygu fel ardaloedd sydd o bwys cadwraethol allweddol lle na ddylid datblygu. Gwneir hyn naill ai drwy bolisïau ysgrifenedig cyfredol sy'n ddigon cadarn i ddiogelu Safleoedd Bywyd Gwyllt at y dyfodol neu fe ddylid diweddaru'r polisïau er mwyn eu cynnwys unwaith y byddant wedi eu nodi.

## Materion ychwanegol y gellid rhoi sylw iddynt mewn papurau pwnc eraill

1.1.10 O bwys neilltuol:

a. Nodwyd bod i ardaloedd glas fanteision o ran iechyd a lles ond mae cyfleoedd i hybu bioamrywiaeth yn yr ardaloedd hyn hefyd, a fydd yn gwella potensial yr ardaloedd hynny o ran hamdden.

b. Mae twristiaeth werdd yng Ngheredigion yn dibynnu ar amgylchedd o safon dda gyda bywyd gwyllt diddorol ac amrywiol. Yn y polisïau twristiaeth dylid ceisio gwella profiadau ecolegol Ceredigion yn lleol ac yn dirweddol.

c. Bydd encilio dan reolaeth ar yr arfordir yn esgor ar gyfleoedd o ran cadwraeth natur y gellid eu defnyddio at ddibenion twristiaeth hefyd.

ch. Wrth ddatblygu'n gynaliadwy dylid sicrhau bod diogelu bywyd gwyllt ymhlith yr amcanion ar bob adeg er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy o safbwynt cadwraeth natur.

d. Mae prosiect yr eco-ysgolion yn boblogaidd iawn yn y sir ac mae'n annog plant ysgol i wella tiroedd yr ysgol ar gyfer bywyd gwyllt gan ddarparu adnodd addysgol da yr un pryd.